# CROPPER, THOMAS (1869 - 1923), Buckley, Sir y Fflint, hynafiaethydd

**Enw:** Thomas Cropper
**Dyddiad geni:** 1869
**Dyddiad marw:** 1923
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Nansi Ceridwen Jones

Yr oedd yn argraffydd a llyfrwerthwr llwyddiannus, a chymerai ddiddordeb mawr yn hanes lleol a hynafiaeth ei dref enedigol a'r ardal. Cyfrannodd erthyglau yn ymdrin â'r pynciau hyn i *The Cheshire Sheaf* a *The Chester Chronicle*, ac yr oedd galw mawr amdano fel darlithydd. Ef oedd awdur *Buckley and District* a gyhoeddwyd yn 1923 gan Cropper a'i Feibion, Buckley. Bu farw yn 54 mlwydd oed (rai wythnosau cyn cyhoeddi ei lyfr).

## Awdur

**Nansi Ceridwen Jones**

## Ffynonellau


Thomas Cropper, *Buckley and District. Historical, biographical, reminiscent* (Buckley 1923)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734424


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu